Dŵr Cymru
Welsh Water

Taste and smell of drinking water

All water sources contain a number of naturally occurring minerals such as calcium, magnesium and iron.

The varying concentrations of these minerals in water give rise to slightly different tastes that can be detected by people, especially when travelling to different parts of the country.

Water also contains dissolved gases such as oxygen and carbon dioxide that can also give tap water a characteristic taste. Without these elements water would taste flat and unappetising. Water in the Welsh Water region typically comes from upland surface water reservoirs, however, some water is abstracted from rivers and groundwater aquifers.

Each source is treated according to its requirements to ensure that the drinking water quality standards are met.

Different types of taste and odour

The sections below describe common causes of tastes and odours of drinking water supplies. If any Welsh Water customer is concerned about the taste and/or odour of their tap water they should contact us.

Need more information or advice?

dwrcymru.com
0800 052 0130

You can also visit the Drinking Water Inspectorate website at **dwi.gov.uk**.

Chlorine

Chlorine is added to drinking water during the final stages of treatment to kill any harmful germs that may be present. A small amount of chlorine remains in the water as it makes its way to customers' taps in order to maintain its wholesomeness.

Chlorine levels in drinking water are kept well within the recommended limits. Customers who live near a water treatment works or an automatic chlorine booster station will receive drinking water with slightly higher chlorine levels than those living further down the distribution system as chlorine levels decline the further water travels through the water mains.

Chlorine concentrations can vary slightly throughout the day as increased demand for tap water will result in water travelling faster through the system.

Changes in water temperature can also affect chlorine concentrations, with higher levels experienced in the winter. Occasionally, chlorine concentrations are increased to deal with operational issues.

It is worth noting that chlorine levels added to the water at treatment works are closely monitored 24 hours a day. The quantities of chlorine found in drinking water are not harmful. However, some people are more sensitive to the taste and smell of chlorine than others. Filling a jug, covering it and allowing the water to stand in the fridge until required for use can reduce the chlorinous taste.

Any water not used after 24 hours should be discarded. A chlorinous or metallic taste in hot drinks, especially tea, is unlikely to be caused by the presence of chlorine and is most likely associated with internal plumbing materials.

INFO–0160

Earthy or musty taint

Water that passes through peaty land can have an earthy or musty taste and/or odour. The water treatment works in such areas are designed to remove the organic material that causes these tastes using activated carbon.

Several types of bacteria and algae that are normally present in lakes, reservoirs and rivers naturally produce the substances responsible for these off flavours.

These musty or earthy tastes and odours tend to be more apparent after long periods of warm dry weather.

TCP taste and smells

Customers occasionally contact us to report that the water from their tap has an unpleasant taste, often described as TCP, medicinal, metallic or bitter. Sometimes this taste occurs only in boiled drinks, or when a glass of water has stood for a period of time.

These tastes and odours can be caused by the reaction between the small but essential amounts of chlorine present in tap water and the plastic or rubber constituents found in common household appliances such as some kettles, tap washers, and the hoses connecting dishwashers and washing machines to the mains water supply.

The problem is extremely simple to solve:

- To confirm whether the kettle is the issue, try making a hot drink with water boiled in a saucepan and compare the taste with one made from the kettle
- To confirm whether the dishwasher or washing machine hose is the cause, isolate the hose and taste the water again. If this solves the taste problem, fit a non-return valve on the end of the hose where it connects to the pipework. Always ensure that any flexi hoses and tap washers are Water Regulations Advisory Service (WRAS) approved. Your plumbing supplier should be able to confirm this.

Rubber or plastic

Certain plumbing materials that come into contact with the water supply in homes, offices and factories can give rise to an unpleasant taste and odour.

When water stands in contact with the pipe small amounts of substances may dissolve from those pipes. Rubber and plastic hoses used to fill drinking water tanks or vending machines and hoses to washing machines and dishwashers can give rise to a rubbery or plastic taste. If you have a washing machine or dishwasher plumbed into pipework under the sink, try closing the valves to see whether the problem persists.

Bitter

A metallic or bitter taste can be caused by copper, iron or galvanised pipes. If water has been standing for several hours in the pipe fill a washing up bowl with water and draw fresh water through the pipe.

The water in the bowl can be used for watering plants and need not be wasted. Occasionally glasses or cups that have been through a dishwasher may retain traces of detergents. As a test, try rinsing the glass or cup with tap water and see whether the taste persists. If so, adjust the settings on your dishwasher and use no more than the recommended amount of detergent and rinse-aid.

Petrol or diesel

If a petrol or diesel taste or odour is detected from the water from your kitchen tap, customers should contact Welsh Water's customer operational helpline.

Occasionally customers spill heating oil or petrol on drives and gardens and if there is a plastic service pipe located in this area the petrol/oil can adversely affect the water in the service pipe.

If such a taste or odour is detected, do not drink the water or use it for cooking purposes until a Welsh Water inspector has visited to investigate your tap water supply.

Dŵr Cymru
Welsh Water

Blas ac arogl dŵr yfed

Mae pob ffynhonnell dŵr yn cynnwys nifer o fwynau naturiol fel calsiwm, magnesiwm a haearn.

Mae amrywiadau yng nghrynodiad y mwynau hyn mewn dŵr yn golygu amrywiadau yn y blas, ac mae pobl yn gallu sylwi ar hyn yn enwedig wrth deithio i wahanol rannau o'r wlad.

Mae dŵr yn cynnwys nwyon tawdd hefyd fel ocsigen a charbon deuocsid, ac mae'r rhain yn gallu rhoi blas arbennig i ddŵr tap. Heb yr elfennau hyn, byddai'r dŵr yn blasu'n fflat ac yn ddiflas. Ar y cyfan, yn rhanbarth Dŵr Cymru, daw'r dŵr o gronfeydd dŵr wyneb tir uchel, ond mae rhywfaint ohono'n dod o afonydd a dyfrhaenau dŵr wyneb hefyd. Mae pob ffynhonnell yn cael ei drin yn ôl yr angen penodol er mwyn sicrhau bod safonau o ran ansawdd dŵr wyneb yn cael eu bodloni.

Gwahanol fathau o flas ac arogl

Mae'r adrannau isod yn disgrifio pethau cyffredin sy'n effeithio ar flas ac arogl cyflenwadau dŵr yfed. Os oes unrhyw gwsmer i Ddŵr Cymru'n poeni am flas a/neu arogl eu dŵr yfed, dylent gysylltu â ni.

Angen rhagor o wybodaeth neu gyngor?

dwrcymru.com
0800 052 0130

Neu ewch i wefan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed yn **dwi.gov.uk**.

Clorin

Mae clorin yn cael ei ychwanegu at ddŵr yfed yn ystod camau olaf y gwaith trin er mwyn lladd unrhyw ermau niweidiol a allai fod ynddo. Mae ychydig bach o glorin yn aros yn y dŵr wrth iddo wneud ei ffordd i dapiau'r cwsmeriaid er mwyn ei gadw'n iachus.

Rydyn ni'n cadw lefelau'r clorin mewn dŵr yfed yn ddiogel o fewn y terfynau a argymhellir. Bydd cwsmeriaid sy'n byw yn agos at weithfeydd trin dŵr neu orsaf hybu clorin awtomatig yn cael dŵr yfed â lefel ychydig bach yn uwch o glorin na'r rhai sy'n byw ymhellach i lawr y system ddosbarthu am fod lefelau'r clorin yn dirywio po bellaf y bydd y dŵr yn teithio trwy'r prif bibellau dŵr.

Gall lefelau'r clorin amrywio ychydig bach yn ystod y dydd am y bydd galw uwch am ddŵr tap yn golygu bod y dŵr yn teithio trwy'r system yn gynt.

Gall newidiadau yn nhymheredd y dŵr effeithio ar y crynhoad o glorin hefyd, gyda'r lefelau'n uwch yn y gaeaf. O bryd i'w gilydd, bydd angen cynyddu'r crynhoad o glorin er mwyn delio â materion gweithredol.

Mae hi'n werth nodi bod lefelau'r clorin sy'n cael eu hychwanegu at y dŵr yn y gweithfeydd trin yn cael eu monitro'n ofalus 24 awr y dydd. Nid yw'r lefelau o glorin a geir mewn dŵr yfed yn niweidiol. Fodd bynnag, mae rhai pobl yn fwy sensitif i flas ac arogl clorin nag eraill. Gall llenwi jwg, ei orchuddio a gadael i'r dŵr sefyll yn yr oergell nes bod angen ei ddefnyddio leihau blas y clorin.

Dylech daflu unrhyw ddŵr sydd wedi bod yn sefyll am fwy na 24 awr. Mae hi'n annhebygol taw clorin sydd i gyfrif am flas tebyg i glorin neu flas metelaidd mewn diodydd poeth – yn arbennig te, mae'n fwy tebygol o fod yn gysylltiedig â deunyddiau plymio mewnol.

INFO–0160

Ôl mws neu briddlyd

Mae dŵr sy'n pasio trwy dir mawnog yn gallu bod â blas a/neu arogl mws neu briddlyd. Mae'r gweithfeydd trin dŵr mewn ardaloedd o'r fath yn defnyddio carbon awyredig i gael gwared ar y deunydd organaidd sy'n achosi'r blas yma.

Mae sawl math o facteria ac algâu sy'n gyffredin mewn llynnoedd, cronfeydd ac afonydd yn cynhyrchu'r sylweddau sy'n gyfrifol am y blas llwydaidd yma'n naturiol.

Mae'r blas mws neu briddlyd yn dueddol o fod yn amlycach ar ôl cyfnod hir o dywydd cynnes a sych.

Blas ac arogl TCP

O bryd i'w gilydd, bydd cwsmeriaid yn cysylltu â ni i ddweud bod blas cas ar y dŵr sy'n dod o'u tapiau, ac maen nhw'n aml yn disgrifio'r blas fel blas TCP, meddyginiaethol, metelaidd neu chwerw. Weithiau mae'r arogl yma mewn diodydd sydd wedi eu berwi yn unig neu pan fo gwydraid o ddŵr wedi bod yn sefyll am gyfnod.

Mae'r adwaith rhwng y lefelau isel ond hanfodol o glorin sy'n bresennol mewn dŵr tap a'r cydrannau plastig neu rwber a geir mewn offer domestig fel rhai tegyll, wasieri tapiau, a'r pibellau sy'n cysylltu peiriannau golchi llestri a golchi dillad â'r prif gyflenwad dŵr yn gallu achosi'r blas a'r arogl yma.

Mae'r broblem yn syml iawn i'w datrys:

- I gadarnhau ai'r tegell sydd ar fai, gwnewch ddiod boeth gyda dŵr wedi ei ferwi mewn sosban, a chymharwch y blas a'r ddiod a wnaed a dŵr o'r tegell
- I gadarnhau ai pibell y peiriant golchi llestri neu ddillad sydd ar fai, neilltuwch y bibell a blaswch y dŵr eto. Os yw hyn yn datrys y broblem gyda'r blas, gosodwch falf un ffordd ar ben y bibell lle mae'n cysylltu â'r pibellwaith. Gwnewch yn siŵr bod unrhyw bibellau hyblyg a wasieri ar dapiau wedi cael sêl bendith y Gwasanaeth Ymgynghori Rheoliadau Dŵr (WRAS). Dylai cyflenwr yr offer plymio fod yn gallu cadarnhau hyn.

Rwber neu blastig

Gall rhai deunyddiau plymio sy'n dod i gysylltiad â'r cyflenwad dŵr mewn cartrefi, swyddfeydd a ffatrïoedd achosi blas ac arogl cas.

Pan fo dŵr yn sefyll mewn cysylltiad â'r bibell, gall ychydig bach o'r sylweddau o'r bibell doddi i'r dŵr. Gall y pibellau rwber a phlastig a ddefnyddir i lenwi tanciau dŵr yfed neu beiriannau gwerthu diodydd, a'r pibellau sy'n cysylltu â pheiriannau golchi dillad neu lestri beri i'r dŵr flasu o rwber neu blastig. Os oes peiriant golchi dillad neu beiriant golchi llestri gennych sy'n gysylltiedig â'r gwaith plymio o dan y sinc, rhowch gynnig ar gau'r falfiau i weld a yw'r broblem yn parhau.

Chwerw

Gall pibellau copr, haearn neu sinc achosi blas metelaidd neu chwerw. Os yw'r dŵr wedi bod yn sefyll yn y bibell ers oriau, llenwch bowlen golchi llestri â dŵr a thynnwch dŵr ffres trwy'r bibell.

Gallwch ddefnyddio'r dŵr yn y bowlen i ddyfrio'r planhigion, felly nid oes angen ei wastraffu. Weithiau bydd olion glanedyddion ar wydrau neu gwpanau sydd wedi bod trwy beiriant golchi llestri. Fel prawf, rhowch gynnig ar rinsio'r gwydr neu'r cwpan â dŵr tap i weld a yw'r blas yn parhau. Os felly, addaswch y gosodiadau ar eich peiriant golchi llestri a pheidiwch â defnyddio mwy o lanedydd a hylif rinsio na'r hyn y mae'r pecyn yn ei argymell.

Petrol neu ddisel

Os oes blas neu arogl petrol neu ddisel ar y dŵr sy'n dod o'r tap yn eich cegin, ffoniwch linell gymorth gweithredol Dŵr Cymru i gwsmeriaid.

Weithiau mae cwsmeriaid yn colli olew gwresogi neu betrol ar eu mannau parcio a'u gerddi trwy ddamwain, ac os oes pibell gwasanaeth blastig yn y cyffiniau, gall y petrol/olew effeithio ar y dŵr yn y bibell gyflenwi.

Os oes blas neu arogl o'r fath, peidiwch ag yfed y dŵr na'i ddefnyddio i goginio nes bod arolygydd o Dŵr Cymru wedi bod allan i ymchwilio i'ch cyflenwad dŵr tap.